



Amddiffyn Plant | Taflenni Ffeithiau

Cyflwyniad

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch materion amddiffyn plant. Dylid ei darllen gyda'r llyfryn sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol, ar gael [yma](#).

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ymchwilio lle credir bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Fel arfer, dylech gwyno yn gyntaf i'r Cyngor o dan weithdrefn gwyno'r Gwasanaethau Plant. Ond gallwch gysylltu â ni'n uniongyrchol os yw'n ymddangos bod y Cyngor yn llusgo'i draed wrth ddelio â'ch cwyn.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall yr Ombwdsmon edrych ar ymateb y Cyngor i bryderon bod plentyn mewn perygl. Dyma rai o'r materion y gallwn edrych arnynt:

Mae rhywbeth o'i le gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymchwilio i bryderon ynghylch amddiffyn plant a allai fod wedi effeithio arnoch chi'n bersonol. Er enghraifft:

- methu ymateb neu oedi yn ymateb i adroddiadau bod plentyn mewn perygl.
- ymchwilio'n anfoddfaol i'r achos a methu dilyn y gweithdrefnau priodol a chanllawiau'r llywodraeth;
- methu cyfathrebu â'r pobl berthnasol a chydweithredu ag asiantaethau eraill;
- adroddiadau anfoddfaol neu anghywir (ar wahân i adroddiadau a baratoir ar gyfer y llys).

Diffygion gyda rheoli'r gwaith o gynllunio dyfodol plentyn yn dilyn cynhadledd achos amddiffyn plant. Gallai'r diffygion hyn gynnwys:

- methu gweithredu [argymhellion](#) cynhadledd amddiffyn plant;
- dim cynllun boddhaol ar gyfer y plentyn, neu fethu gweithredu cynllun o'r fath.

Mewn rhai achosion gall yr Ombwdsmon gwestiynu penderfyniadau a wnaed gan weithwyr cymdeithasol.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all:

- edrych ar benderfyniad gan y Cyngor i ddwyn achos llys;
- edrych ar faterion y dylai'r llys fod wedi edrych arnynt. Os ydych yn anhapus gyda chanlyniad achos llys, ni all yr Ombwdsmon newid y penderfyniad hwnnw a dylech ystyried gofyn am gyngor cyfreithiol. Mewn rhai achosion, byddwn efallai'n gallu edrych ar y mesurau a gymrodd y Cyngor cyn dwyn achos llys ac ar y gwasanaethau iddo eu darparu ar ôl i'r achos llys ddod i ben.

Materion i gadw mewn cof

Mewn achosion amddiffyn plant, lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth a gallai hyn fod yn gyson â buddiannau'r oedolyn sy'n cwyno.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â phenderfyniad gan Gynhadledd Amddiffyn Plant, ni allai'r Ombwdsmon ystyried y gŵyn oherwydd gallai nifer o wahanol asiantaethau fod yn cyfrannu at y broses amddiffyn plant. Gall yr Ombwdsmon ond edrych ar gwynion yn erbyn y cyngor ac, mewn rhai amgylchiadau, ar berfformiad gweithwyr iechyd proffesiynol.

Gwybodaeth bellach

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Weithdrefnau Diogelu Cymru yn

<http://www.childreninwales.org.uk/our-work/safeguarding/wales-safeguarding-procedures/>

Mae'r gweithdrefnau hyn yn helpu i ddiogelu plant a hybu eu lles .

Efallai y byddech hefyd yn gallu cael cyngor a chymorth gan **Grŵp Hawliau'r Teulu**, sy'n darparu gwasanaeth dros Gymru a Lloegr ac sy'n cynghori rhieni ac aelodau eraill o'r teulu pan fo angen gwasanaethau gofal cymdeithasol efallai ar eu plant. Gallwch eu ffonio ar **0808 801 0366** neu ymweld â'u gwefan: <https://www.frg.org.uk/>

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymhell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon.cymru.

Cysylltu â ni.

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, [cysylltwch â ni.](#)

Hawdd ei Ddarllen

Amddiffyn Plant

 [Lawrlwytho](#)

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.

Holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203